# Adroddiad Arolygu

**The Towers Day Nursery Ltd**

**Llangollen Road**
**Acre-fair**
**Wrecsam**
**LL14 3SG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Towers Day Nursery Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | The Towers Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Tachwedd 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Gwael** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyfyngedig i gael dweud sut yr hoffent dreulio eu hamser a rhywfaint o ddewis rhydd wrth symud o gwmpas yr amgylchedd. Ar y cyfan, mae'r plant yn hapus ac yn setlo'n dda. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn mwynhau chwarae ochr yn ochr â'u ffrindiau. Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu ar y cyfan ac maent yn dysgu parchu ei gilydd a'r adnoddau. Mae'r plant yn cael rhywfaint o gyfleoedd i fod yn annibynnol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cofrestrau presenoldeb bob amser yn glir ac yn gyson. Mae'r staff yn rhyngweithio mewn modd caredig a gofalgar â'r plant ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oes llawer o enghreifftiau o ryngweithio effeithiol, ac mae'r staff yn colli cyfleoedd i hybu datblygiad y plant. Mae'r staff yn cynnig rhai gweithgareddau priodol i'r plant ac yn cynnig cyfleoedd sylfaenol iddynt fod yn annibynnol.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel ac mae systemau ac arferion effeithiol ar waith. Mae'r amgylchedd yn ddigon mawr ond nid yw bob amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi chwarae a dysgu'r plant. Darperir rhai adnoddau addas ond maent yn gyfyngedig ac nid ydynt bob amser yn hygyrch nac ar gael i'r plant.

Nid yw'r arweinwyr yn rheoli eu lleoliad yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu'n bodloni Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016. Maent yn adolygu'r gwasanaeth a gynigir ac yn gwneud rhywfaint o waith hunanwerthuso. Nid oes gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i reoli'r staff yn effeithiol. Caiff cydberthnasau priodol eu meithrin â'r rhieni.

| **Llesiant** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddweud sut yr hoffent dreulio eu hamser a chyfleoedd cyfyngedig i fynegi eu diddordebau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael dewis p'un a hoffent chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Mae ganddynt rywfaint o ddewis rhydd wrth symud o gwmpas yr amgylchedd, gan ddewis o'r adnoddau y mae'r staff yn eu cynnig iddynt. Weithiau, mae'r plant yn cyfathrebu ac yn mynegi eu hunain, ond nid yw'r staff bob amser yn eu deall nac yn ymateb yn briodol iddynt, sy'n golygu na chaiff anghenion rhai o'r plant eu diwallu.

Ar y cyfan, mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn gwahanu'n dda o'u rhieni ac yn mynd i ymuno â'u ffrindiau'n hyderus pan fyddant yn cyrraedd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn mwynhau chwarae ochr yn ochr â'r plant eraill. Maent yn teimlo i ryw raddau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn cael eu canmol am ymddygiad cadarnhaol a rhai o'u cyflawniadau. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff ac yn gyfarwydd â'r arferion, sy'n eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn ystod y dydd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu ar y cyfan. Maent yn dysgu parchu ei gilydd a'r adnoddau a ddarperir. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin dealltwriaeth o anghenion unigolion eraill wrth iddynt rannu gofod a gweithgareddau. Er enghraifft, wrth aros eu tro i fynd ar y cyfarpar dringo. Mae rhai o'r plant yn ymwybodol o'r rheolau a'r disgwyliadau ac maent yn eu dilyn yn effeithiol. Maent yn dysgu bod yn gwrtais a dangos moesau da, gan ddweud '*please*' a '*thank you*' ar adegau priodol.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ar y cyfan. Maent yn dangos rhywfaint o fwynhad wrth chwarae y tu allan, ond weithiau maent yn colli diddordeb. Mae hyn gan nad oes digon o ryngweithio priodol ac nad oes digon o adnoddau ar gael a fyddai'n cynnig mwy o gyfleoedd iddynt ddilyn eu diddordebau. Weithiau, roedd y plant am fynd allan i chwarae ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny. Mae'r plant yn dysgu rhai sgiliau gan eu bod yn gallu dringo, cydbwyso ac archwilio'r dŵr. Er enghraifft, roeddent yn mwynhau gwthio car tegan mawr ac roeddent am i rywun ei wthio'n ôl iddynt. Roedd y babanod yn mwynhau chwarae gyda'r gêm '*pop-up*' ac yn gwenu wrth bwyso'r botwm a gweld anifail yn dod i'r golwg.

Mae'r plant yn cael rhywfaint o gyfleoedd i fod yn annibynnol. Caiff eu heiddo ei storio mewn ffordd sy'n golygu y gallant gael gafael arno pan fydd ei angen a chânt eu cefnogi a'u hannog i ddefnyddio'r toiled ac i olchi eu dwylo'n annibynnol. Mae bron pob un o'r plant sy'n gallu gwneud hynny yn bwydo eu hunain yn annibynnol ac yn sychu eu dwylo a'u hwyneb ar ôl bwyta. Fodd bynnag, ni ddarperir rhai cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth ymhellach.

## Gofal a Datblygiad — Gwael

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn briodol. Maent yn deall y weithdrefn ddiogelu ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng. Caiff cofrestrau eu cwblhau o bresenoldeb y plant a'r staff. Fodd bynnag, nid ydynt yn glir ac nid ydynt yn dangos pa staff sy'n gofalu am ba blant ar unrhyw un adeg. Mae'r cofrestrau yn anghyson, felly nid ydynt yn dangos a yw'r gwasanaeth yn bodloni'r cymarebau cywir rhwng oedolion a phlant, ac nid ydynt yn dangos nifer y plant sy'n bresennol bob dydd. Codwyd y mater hwn yn ystod yr arolygiad blaenorol. Ystyriwn fod hwn yn fater difrifol, ac felly, rydym wedi ailgyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw ar y cyfan. Mae'r bwyd a ddarperir yn briodol a chynigir llaeth neu ddŵr i'r plant ei yfed. Mae'r staff yn annog ac yn helpu'r plant i olchi eu dwylo ar ôl mynd i'r toiled a chyn bwyta. Caiff gweithdrefn newid cewynnau briodol ei dilyn a chaiff y byrddau a'r cadeiriau uchel eu glanhau er mwyn helpu i atal germau rhag lledaenu.

Pan fydd y staff yn rhyngweithio â'r plant, maent yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n garedig ac yn ofalgar. Fodd bynnag, nid oes llawer o enghreifftiau o ryngweithio effeithiol, ac mae'r staff yn colli cyfleoedd i hybu datblygiad ac i annog lleferydd ac iaith. Er enghraifft, yn gyffredinol, roedd y staff yn sefyll ac yn gwylio'r plant yn chwarae heb gynnig cymorth nac anogaeth. Nid oedd yr arferion yn cefnogi enghreifftiau cadarnhaol o ryngweithio ac nid oedd y plant yn cael gofal priodol i'w helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol. Er enghraifft, roedd rhai aelodau o'r staff yn sefyll dros y plant wrth eu bwydo, ac mae amser byrbryd ac amser cinio yn brofiad di-drefn yn hytrach na phrofiad cadarnhaol a phleserus i'r plant. Ystyriwn fod y rhain yn faterion difrifol ac felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ar unwaith i ymdrin â'r rhain a gwneud gwelliannau. Mae'r staff yn canmol y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau yn briodol. Er enghraifft, wrth iddynt gymryd eu tro yn ystod gêm.

Mae'r staff yn darparu rhai adnoddau addas i'r plant eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oes llawer o gyfleoedd i'r plant allu ehangu eu profiadau chwarae gan nad oes digon o adnoddau, ardaloedd dysgu ac adnoddau naturiol ar gael yn hwylus iddynt. Nid yw'r cyfleoedd sydd ar gael yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac nid ydynt bob amser yn ddiddorol er mwyn gallu ysbrydoli'r plant i chwarae a dysgu. Mae'r staff yn colli cyfleoedd i ehangu dysgu a phrofiadau'r plant. Nid ydynt yn defnyddio technegau cwestiynu effeithiol i annog y plant i ddatrys problemau a datblygu eu proses o feddwl. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau chwarae â'r hambwrdd dŵr a defnyddio sgiliau fel arllwys a llenwi, ond nid oedd y staff yn rhyngweithio'n briodol â'r plant er mwyn ehangu eu dysgu. O ganlyniad, roedd y plant yn colli diddordeb ac yn dechrau camddefnyddio'r adnodd. Mae'r staff wedi

cyflwyno rhai prosesau ar gyfer cynllunio ac olrhain cynnydd y plant; fodd bynnag, mae'r gwaith a wneir yn sylfaenol ac nid yw'n ystyried diddordebau'r plant na chamau nesaf eu dysgu. Mae'r staff yn rhoi rhywfaint o annibyniaeth i'r plant wrth iddynt ddewis o blith y gweithgareddau a ddarperir. Rhoddir blaenoriaeth i'r drefn yn ystod amser byrbryd ac amser cinio yn hytrach na phrofiad y plant, ac ni all y staff roi cyfleoedd effeithiol i'r plant fod yn annibynnol gan nad oes digon o le a bod pob ystod oedran yn cael byrbryd a chinio gyda'i gilydd. Y staff sy'n gweini'r bwyd i gyd ac yn arllwys y diodydd i'r plant ac o ganlyniad, nid oeddent bob amser yn diwallu anghenion y plant yn briodol. Er enghraifft, nid oedd y plant bob amser yn gallu cysgu pan oeddent wedi blino ac roedd yn rhaid i'r plant hŷn eistedd a gwrando ar stori ac yna wylio'r teledu tra roedd plant eraill yn cysgu. Ystyriwn fod y rhain yn faterion difrifol ac felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ar unwaith i ymdrin â'r rhain a gwneud gwelliannau.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel. Mae'r systemau diogelwch yn effeithiol, gan gynnwys cloi'r drysau allanol a defnyddio gatiau diogelwch yn briodol. Caiff ymwelwyr eu cofnodi ac ni all unigolion heb awdurdod ddod i mewn. Mae'r arweinwyr wedi cynnal asesiadau risg digonol o'r ardaloedd a ddefnyddir a rhai o'r gweithgareddau a gynigir er mwyn sicrhau y caiff peryglon eu rheoli'n briodol.

Mae'r amgylchedd yn ddigon mawr ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu. Mae digon o le i allu trefnu'r plant yn grwpiau yn unol â'u hoedrannau ac mae lle ar gyfer amser byrbryd a chinio. Fodd bynnag, ni chaiff yr ardaloedd hyn bob amser eu defnyddio'n effeithiol, gan arwain at ystafelloedd prysur lle nad oes gan y plant bob amser y rhyddid i chwarae neu gymryd rhan mewn arferion yn effeithiol. Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau i'r ardal awyr agored. Gosodwyd arwyneb newydd a thrwy ehangu'r ardal sydd ar gael, mae mwy o le i'r plant symud o gwmpas a bod yn egnïol. Mae digon o doiledau plant a chyfleusterau newid cewynnau addas ar gael yn hwylus. Mae ystafell y babanod yn groesawgar ac yn creu gofod cartrefol a chyfforddus gydag arddangosiadau deniadol a charpedi. Mae'r ystafell cyn-ysgol yn briodol ac mae ynddi arddangosiadau addas i helpu'r plant i feithrin ymdeimlad o berthyn. Caiff y rhan fwyaf o'r ardaloedd eu cadw'n lân a chânt eu cynnal a chadw'n addas. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn dangos arwyddion bod angen eu hailaddurno a'u glanhau er mwyn sicrhau eu bod yn groesawgar ac yn ddiogel i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu rhai adnoddau addas ac maent wedi prynu eitemau newydd yn ddiweddar er mwyn gwella'r deunyddiau naturiol sydd ar gael. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael eu storio'n briodol nac ar gael i'r plant eu defnyddio. Mae rhai ardaloedd dysgu wedi cael eu datblygu, gan gynnwys wal sgiliau echddygol manwl newydd yn ystafell y babanod, ond nid oes llawer o gyfleoedd i'r plant hŷn ddefnyddio ardaloedd dysgu ac adnoddau sy'n ennyn eu chwilfrydedd ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Nid yw'r ardaloedd dysgu bob amser wedi'u trefnu i ysbrydoli'r plant a'u gwahodd i chwarae a dysgu. Er enghraifft, nid oedd unrhyw adnoddau wedi'u gosod ar y bwrdd isel i'r plant chwarae gyda nhw, ac nid oedd adnoddau ar gael i'r plant allu wneud dewis drostynt eu hunain. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu cynnal a'u cadw'n briodol ac mae rhai ohonynt yn galluogi'r plant i gymryd risgiau pwyllog fel y cyfarpar dringo newydd y tu allan. Fodd bynnag, mae rhai o'r adnoddau yn dangos ôl traul. Mae adnoddau fel byrddau, cadeiriau a chadeiriau uchel yn addas i oedrannau'r plant ac yn helpu i sicrhau eu bod yn gyfforddus.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Gwael |
|---|---|

Nid yw'r arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Nid ydynt yn dangos eu bod yn gwbl ymwybodol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol na Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cyrraedd y safonau ac maent yn methu â chydymffurfio â'r rheoliadau. Ystyriwn fod hwn yn fater difrifol, ac felly, rydym wedi ailgyhoeddi'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Mae'r arweinwyr wedi llunio datganiad o ddiben sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni a gofalwyr i wneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â'r gofal y mae eu plentyn yn ei gael. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a chaiff y ddogfennaeth ofynnol, fel cofnodion y plant, ei diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod y cofrestrau presenoldeb yn cael eu cwblhau yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn adolygu ac yn hunanwerthuso rhai agweddau ar y gwasanaeth a gynigir ganddynt. Er enghraifft, mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r ardal awyr agored ac mae cyfarpar newydd wedi'i brynu. Maent yn gofyn am farn y rhieni a'r gofalwyr yn rheolaidd ac yn ei hystyried wrth wneud newidiadau a chynllunio newidiadau posibl.

Mae'r arweinwyr yn cymryd rhan weithgar yn y gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnal arfarniadau na sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon i'r staff ac o ganlyniad, ni chaiff gwybodaeth ac anghenion hyfforddi eu rhannu'n effeithiol. Nid yw'r arweinwyr yn monitro perfformiad y staff yn briodol gan nad yw'r staff bob amser yn goruchwylio'r plant yn ofalus a'u bod yn dangos diffyg dealltwriaeth o sut i ryngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Nid yw'r arweinwyr yn dilyn gweithdrefn sefydlu briodol sy'n sicrhau bod y staff yn cael y cymorth, yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Ni chaiff gweithdrefn recriwtio effeithiol ei dilyn. Er enghraifft, nid oedd y wybodaeth ofynnol sydd ei hangen i ddangos bod y staff yn addas i ofalu am blant wedi'i choladu. Ystyriwn fod y rhain yn faterion difrifol ac felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ar unwaith i ymdrin â'r rhain a gwneud gwelliannau.

Mae'r arweinwyr yn meithrin cydberthynas briodol â'r rhieni a'r gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brofiadau eu plentyn. Maent wedi cyflwyno ffordd ddigidol newydd o rannu gwybodaeth a manylion â'r rhieni a gofalwyr yn ddiweddar, er mwyn sicrhau eu bod yn cael rhywfaint o wybodaeth ac yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiad eu plentyn a'i arferion dyddiol yn y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff gofal dydd ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn darparu'n briodol ar gyfer lles plant perthnasol a darparu'n briodol ar gyfer gofal, addysg , goruchwyliaeth, a phan fo'n briodol, triniaeth i blant perthnasol | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd ac ystyrlon i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau a darparu gofal a chymorth priodol i'r plant. | Newydd |
| 9 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn defnyddio'r staff yn effeithiol, fel bod y cymarebau'n cael eu cyrraedd a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | ddigonol. | |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod ganddo yr holl wybodaeth ofynnol i ddangos bod y staff yn addas i ofalu am y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu digon o le, ei fod yn groesawgar i'r plant ac yn eu galluogi i gael gafael ar y cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo'u datblygiad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2024